# Lefel 4 Lleoli Oedolion/ Cysylltu Bywydau

Gorffennaf Fersiwn 1.1

# Llawlyfr y Cymhwyster

| Fersiwn a Dyddiad | Newid manylion | Adran |
|---|---|---|
| 1.1 Gorffennaf 2021 | Ymrestru ac ardystio adran wedi'i diweddaru | Gofynion canolfannau |

# Cipolwg ar y cymhwyster

| | |
|---|---|
| **Maes pwnc** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| **Rhif City & Guilds** | 8040 |
| **Grŵp oedran cymeradwy** | 18+ |
| **Gofynion cofrestru** | Dim |
| **Asesu** | Cyfuniad o asesu mewnol ac asesu allanol |
| **Cymeradwyaethau** | Mae angen cymeradwyo canolfannau a chymwysterau |
| **Deunyddiau cefnogi** | Llawlyfr y Cymhwyster<br>Pecyn asesu |
| **Ymrestru ac ardystio** | Ewch i wefan y Consortiwm am fanylion |

| Teitl a lefel | Rhif cyfeirnod | Rhif achredu |
|---|---|---|
| Lefel 4 Lleoli Oedolion/ Cysylltu Bywydau | 8040-11 | C00/4016/6 |

# Cynnwys

Lefel 4 Lleoli Oedolion/ Cysylltu Bywydau 1
**Cipolwg ar y cymhwyster 2**
**Cynnwys 4**
**1 Cyflwyniad 6**
Nodau ac amcanion y pwnc 7
Strwythur 8
Oriau dysgu dan arweiniad (ODA) a chyfanswm yr amser cymhwyso (CAC) 9
**2 Gofynion canolfannau 10**
Cymeradwyo'r cymhwyster 10
Ymrestru ac ardystio 10
Staff canolfannau 11
Gofynion cofrestru ymgeiswyr 12
Cyfyngiadau oedran 12
**3 Cyflwyno'r cymhwyster 13**
Asesu cychwynnol a sefydlu 13
Deunyddiau cefnogi 13
Swyddogion Cyswllt/penodedigion allanol 13
Trefniadau cymedroli asesu mewnol 15
Apêl fewnol 15
Ffactorau sy'n effeithio ar ymgeiswyr unigol 15
Camymddwyn 16
Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig 16
**4 Asesu 18**
Crynodeb o'r dulliau asesu 18
Efelychiad 18
Cyfyngiadau amser 18
Cydnabod dysgu blaenorol (CDB) 18
Dyfarnu'r cymhwyster 18
Cyfleoedd ailsefyll 18
**5 Unedau 20**
Argaeledd unedau 20
Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau 21
**Uned 434 Cefnogi gofalwyr lleoli oedolion/ cysylltu bywydau 23**
Canllawiau cyflwyno 31
Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig 32
Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig 33

| | | |
|---|---|---|
| **Uned 435** | **Meithrin dealltwriaeth o ddementia** | **34** |
| | Canllawiau cyflwyno | 38 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 39 |
| **Uned 436** | **Meithrin dealltwriaeth o anabledd dysgu ac awtistiaeth** | **40** |
| | Canllawiau cyflwyno | 44 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 46 |
| **Uned 437** | **Meithrin dealltwriaeth o salwch meddwl** | **47** |
| | Canllawiau cyflwyno | 51 |
| | SGC cysylltiedig | 54 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 54 |
| **Atodiad 1** | **Cysylltiad â chymwysterau eraill** | **56** |
| | Cysylltiadau â chymwysterau eraill | 56 |

# 1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych yr hyn y mae angen i chi ei wneud er mwyn cyflwyno'r cymhwyster:

| Maes | Disgrifiad |
|---|---|
| Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? | Nod y cymhwyster hwn yw datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau a sgiliau gweithwyr sy'n gyfrifol am gefnogi lleoliadau/trefniadau cysylltu bywydau a Gofalwyr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau.<br><br>Mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol yn y sector, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.<br><br>Mae'r cymhwyster yn seiliedig ar ymarfer ac yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr. Mae wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr sy'n ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith, addysg bellach ac addysg uwch. |
| Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys? | Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni rôl sy'n cefnogi lleoliadau/trefniadau cysylltu bywydau a Gofalwyr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau. |
| Pa gyfleoedd sydd i ddatblygu? | Mae'r cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i gamu ymlaen mewn gyrfa neu i astudio ymhellach ar lefel uwch.<br><br>I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer gweithio yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys swyddi penodol, gweler y 'Fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant rheoledig yng Nghymru' sydd ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru. **https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/fframwaith-cymwysterau-ar-gyfer-y-sector-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru** |
| Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymhwyster? | Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru a ddatblygodd gynnwys unedau'r cymhwyster hwn ac sy'n berchen arno.<br><br>Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â'r consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid ac aseswyr yn y gweithle o bob rhan o'r sector cysylltu bywydau/lleoli oedolion. |

## Nodau ac amcanion y pwnc

Bydd cymhwyster Lefel 4 Lleoli Oedolion/ Cysylltu Bywydau yn galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau ac ymarfer yng nghyd-destun eu dewis lwybr. Yn arbennig, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau fel gweithiwr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau
- datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol sy'n gymwys i rôl gweithiwr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau;
- datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i weithio gyda gofalwyr er mwyn cynnal a chyflawni canlyniadau i unigolion o fewn rôl gweithiwr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau;
- datblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol sydd â meddyliau ymholgar yng nghyd-destun eu rôl fel gweithiwr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau;
- defnyddio dull ymholgar a beirniadol o wahaniaethu rhwng ffeithiau a barn; llunio dadleuon ac arddel barn wybodus yng nghyd-destun eu rôl fel gweithiwr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau;
- datblygu hunanymwybyddiaeth er mwyn gwella eu harferion fel gweithiwr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau;
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau person-ganolog o fewn eu rôl fel gweithiwr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau;
- defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol yn eu swydd.

## Strwythur

Er mwyn ennill cymhwyster **Lefel 4 Lleoli Oedolion/ Rhannu Bywydau**, rhaid i ddysgwyr gael 45 credyd o leiaf.

Y gofyniad sylfaenol o ran oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer y cymhwyster hwn yw 169.

Er mwyn ennill cymhwyster **Lefel 4 Lleoli Oedolion/ Rhannu Bywydau**, rhaid i ddysgwyr gael:

- 27 credyd o leiaf o'r grŵp Gorfodol.
- 18 credyd o leiaf o'r grŵp Dewisol.

| **Grŵp gorfodol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif yr Uned** | **Teitl yr Uned** | **ODA** | **Credyd** |
| 434 | Cefnogi gofalwyr Lleoli Oedolion/ Cysylltu Bywydau | 115 | 27 |
| **Grŵp dewisol** | | | |
| 435 | Meithrin dealltwriaeth o ddementia | 55 | 18 |
| 436 | Meithrin dealltwriaeth o anabledd dysgu ac awtistiaeth | 54 | 18 |
| 437 | Meithrin dealltwriaeth o salwch meddwl | 55 | 18 |

## Oriau dysgu dan arweiniad (ODA) a chyfanswm yr amser cymhwyso (CAC)

Mae Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) yn rhoi syniad i ganolfannau o faint o amser dysgu ac asesu *dan oruchwyliaeth* sydd ei angen i gyflwyno'r uned a gellir defnyddio'r ffigur hwn at ddibenion cynllunio.

Cyfanswm yr Amser Cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (a restrir ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Mae fformiwla sy'n cyfateb i werth y CAC wedi'i rannu â 10 yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r credyd.

Nodir y CAC gofynnol ar gyfer y cymhwyster hwn isod.

| Cymhwyster | CAC |
|---|---|
| Lefel 4 Lleoli Oedolion/ Cysylltu Bywydau | 450 |

# 2 Gofynion canolfannau

## Cymeradwyo'r cymhwyster

Bydd angen cymeradwyo canolfannau a chymhwyster ar gyfer y cymhwyster hwn. Bydd hyn yn cynnwys asesiad desg.

Er mwyn cymeradwyo canolfan, rhaid i sefydliad allu bodloni'r meini prawf cymeradwyo canolfannau. Mae'r dogfennau canlynol yn rhoi manylion sut i gael cymeradwyaeth am y cymhwyster hwn:

- Llawlyfr Gweinyddol (*Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC*)
- Ein Gofynion Sicrhau Ansawdd
- Model Sicrhau Ansawdd

Cynghorir darpar ganolfannau i geisio cymeradwyaeth canolfan a chymhwyster, fel sy'n briodol, cyn dechrau cyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r Consortiwm yn anelu at gyhoeddi'r penderfyniad ynghylch cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster o fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, gan arwain at bedwar canlyniad posibl:

- Cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster
- Cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu
- Ymatal rhag cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu
- Gwrthod cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster.

Tybir bod y ganolfan a'r cymhwyster wedi cael eu cymeradwyo pan fydd City & Guilds yn anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r statws i'r ganolfan, ac nid cyn hynny.

Bydd yn ofynnol i ganolfannau wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer y cymhwyster hwn a bodloni'r gofynion penodol i ganolfannau a amlinellir yn y ddogfen hon mewn perthynas â staff cyflwyno a chymhwysedd aseswyr. Bydd y gofynion hyn yn cael eu harchwilio a'u monitro fel rhan o'r broses cymeradwyo cymwysterau a'r broses o fonitro'r cymhwyster hwn yn barhaus.

## Ymrestru ac ardystio

Mae dysgwyr ar gyfer y cymhwyster hwn yn cael eu cofrestru ar Pro Platform i gefnogi’r elfen asesu allanol. Mae Pro Platform yn galluogi canolfannau i gofrestru ar sail ‘mewn ac allan’ hy gallwch gofrestru ar unrhyw amser ac mewn unrhyw niferoedd yn ystod y flwyddyn.

**Ni ddylid** cofrestru dysgwyr am y cymhwyster hwn ar Walled Garden.

Mae mynediad i Pro Platform yn cael ei ddarparu i ganolfannau ar ôl derbyn cymeradwyaeth am y cymhwyster hwn. Mae canllawiau ar gael o dan y tab ‘Welsh Qualifications’ yn yr adran ‘Support Materials’ i ddarparu cymorth i ganolfannau cwblhau cofrestru, fesul dysgwyr unigol neu fesul grŵp.

Bydd dysgwyr yn cael eu tystysgrifo drwy Walled Garden.

## Staff canolfannau

### Gofynion aseswyr

Bydd yr aseswr mewnol yn gyfrifol am asesu'r tasgau a asesir yn fewnol (Tasgau A-C) o fewn y cymhwyster.

Rhaid i Aseswyr y cymhwyster hwn:

- fod yn alwedigaethol gymwys o fewn llwybr penodol y cymhwyster maent yn ei asesu – golyga hyn fod yn rhaid i bob aseswr allu bodloni holl ofynion unedau cymhwysedd y llwybr y mae'n ei asesu. Ystyr cymhwysedd galwedigaethol yw eu bod hefyd yn alwedigaethol wybodus
- cynnal eu cymhwysedd galwedigaethol drwy ddysgu a datblygu proffesiynol parhaus y gellir eu dangos yn glir
- meddu ar D32/D33 neu A1 NEU fod yn gweithio tuag at gymwysterau A1 yn lle hynny ee City & Guilds 6317 fel:
  - Dyfarniad Lefel 3 6317-31 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith neu
  - Dystysgrif Lefel 3 6317-33 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol neu
  - gymhwyster addas cyfatebol/amgen arall ym maes asesu perfformiad seiliedig ar waith. Rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda swyddog sicrhau ansawdd allanol y ganolfan.

Lle y bo gan aseswyr hen gymwysterau aseswr, rhaid iddyn nhw ddangos eu bod yn asesu'n unol â safonau asesu cyfredol neu gymhwyster cyfatebol/amgen addas arall ar gyfer asesu perfformiad yn y gwaith. Rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol y ganolfan.

Mae City & Guilds hefyd yn derbyn cymwysterau aseswr ychwanegol a achredir yn genedlaethol. Ceir rhestr lawn o'r rhain ar dudalen we'r cymhwyster.

Lle y bo aseswr yn gweithio tuag at ennill cymwysterau aseswr, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan aseswr cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

### Swyddogion sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i'r rheini sy'n cyflawni'r rôl sicrhau ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

Mae'r gofynion cymhwyso ar gyfer swyddog sicrhau ansawdd mewnol ar gyfer cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd fel a ganlyn. Rhaid bod y swyddog sicrhau ansawdd mewnol:

- yn meddu ar y cymwysterau Sicrhau Ansawdd cyfredol, neu fod yn gweithio tuag at eu hennill, e.e.
  - Lefel 4 Dyfarniad ar gyfer Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Arferion Asesu yn Fewnol neu
  - Lefel 4 Tystysgrif mewn Arwain Gwaith Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Fewnol neu
  - Feddu ar uned D34 neu Ddyfarniad Gwirwyr V1.

Lle bo swyddog sicrhau ansawdd mewnol yn gweithio tuag at ennill cymhwyster swyddog sicrhau ansawdd mewnol, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd mewnol cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

**Y cyd-destun Cymreig**

O ran unigolion nad ydynt wedi ymgymryd â gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen, awgrymir y byddai meddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant, polisïau a chyd-destun Cymru yn fuddiol i'w cefnogi wrth ymgymryd â'u rolau.

**Datblygiad proffesiynol parhaus**

Disgwylir i ganolfannau gynorthwyo eu staff i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u cymhwysedd yn y maes galwedigaethol ac o ran arfer gorau wrth gyflwyno, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd yn gyfredol a'u bod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

## Gofynion cofrestru ymgeiswyr

Nid yw City & Guilds yn pennu unrhyw ofynion cofrestru ychwanegol ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ymgeiswyr y potensial i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus, a'r cyfle i wneud hynny.

Gellir cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r Ardd Furiog (Walled Garden) – gweler gwefan y Consortiwm am ragor o fanylion.

## Cyfyngiadau oedran

Ni all y Consortiwm dderbyn unrhyw gofrestriadau ar gyfer ymgeiswyr eraill dan 18 oed gan nad yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer rhai dan 18 oed.

# 3 Cyflwyno'r cymhwyster

## Asesu cychwynnol a sefydlu

Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau ei raglen er mwyn nodi:

- p'un a oes gan y dysgwr unrhyw anghenion penodol o ran hyfforddiant,
- unrhyw gefnogaeth ac arweiniad y gall fod ei angen arno wrth weithio tuag at ennill y cymhwyster,
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir y dylai canolfannau gynnig rhaglen sefydlu fel bod y dysgwr yn deall gofynion y cymhwyster, ei gyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan yn llawn. Gall y wybodaeth hon gael ei chofnodi ar gontract dysgu.

## Deunyddiau cefnogi

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

| Disgrifiad | Sut i gael mynediad |
|---|---|
| Pecyn asesu | Gwefan y Consortiwm |

## Swyddogion Cyswllt/penodedigion allanol

Swyddogion Cyswllt/Penodedigion yw'r termau a ddefnyddir gan y Consortiwm i gyfeirio at unigolion a benodir gan City & Guilds neu CBAC i gyflawni rolau penodol ar eu rhan, er enghraifft swyddogion dilysu neu asesu allanol.

Mae gan y Consortiwm feini prawf er mwyn sicrhau bod pob swyddog cyswllt/penodai yn meddu ar y wybodaeth/profiad a sgiliau galwedigaethol cywir i gyflawni'r rôl benodol.

Bydd y Consortiwm yn sicrhau bod pob swyddog cyswllt/penodai sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd ym meysydd cymeradwyo canolfannau, cymeradwyo cymwysterau a gwneud penderfyniadau asesu wedi'i hyfforddi, yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn gymwys yn alwedigaethol. Rhaid mynychu hyfforddiant a digwyddiadau safoni.

Mae staff y Consortiwm yn rheoli perfformiad pob swyddog cyswllt/penodai.  Os nodir pryderon am unigolyn, bydd pob partner Consortiwm yn cymryd camau cywirol a fyddai'n gallu cynnwys camau gwella a monitro agos neu, mewn rhai achosion, gall problemau o ran ansawdd perfformiad arwain at derfynu contract Corff Dyfarnu gyda'r swyddog cyswllt/penodai.

## Aseswyr allanol

Ar gyfer y cymhwyster hwn, caiff nifer o aseswyr allanol eu recriwtio gan City & Guilds a fydd yn cynnal yr asesiad allanol ac yn gwneud y penderfyniad asesu ar gyfer pob ymgeisydd sy'n cwblhau elfen asesu allanol y cymhwyster hwn. Rhaid i'r aseswyr hyn:

- fod yn alwedigaethol gymwys o fewn llwybr penodol y cymhwyster maent yn ei asesu – golyga hyn fod yn rhaid i bob aseswr allu bodloni holl ofynion unedau cymhwysedd y llwybr y mae'n ei asesu. Ystyr cymhwysedd galwedigaethol yw eu bod hefyd yn alwedigaethol wybodus
- cynnal eu cymhwysedd galwedigaethol drwy ddysgu a datblygu proffesiynol parhaus y gellir eu dangos yn glir.
- meddu ar D32/D33 neu A1 NEU fod yn gweithio tuag at gymwysterau A1 yn lle hynny ee City & Guilds 6317 fel:
  - Dyfarniad Lefel 3 6317-31 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith neu
  - Dystysgrif Lefel 3 6317-33 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol neu
  - gymhwyster addas cyfatebol/amgen arall ym maes asesu perfformiad seiliedig ar waith

  er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r cymhwysedd galwedigaethol cywir i allu arddel barn asesu ddilys, sy'n briodol i lefel y cymhwyster hwn.

Lle y bo aseswr yn gweithio tuag at ennill cymwysterau aseswr, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan aseswr cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

Bydd pob aseswr allanol yn mynd drwy'r hyfforddiant cychwynnol hwn ar y dull asesu. Bydd aseswyr allanol yn destun prosesau safoni a samplu arweiniol. Cynhelir digwyddiadau hyfforddi a safoni blynyddol gyda'r holl aseswyr.

Bydd aseswyr arweiniol yn cefnogi'r broses o recriwtio a hyfforddi aseswyr newydd, gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer gorau a darparu cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau asesu.

Bydd y Consortiwm yn sicrhau bod digon o swyddogion cyswllt/penodedigion dwyieithog yn cael eu recriwtio er mwyn diwallu anghenion canolfannau a dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd y lefel o weithgarwch sicrhau ansawdd yn gyson rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Darperir ar gyfer monitro a safoni yn y ddwy iaith.

Bydd yr holl swyddogion cyswllt/penodedigion yr ystyrir eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch a reoleiddir yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a byddan nhw'n cael sesiwn friffio ar ddiogelu cyn ymweld â chanolfan.

## Swyddogion sicrhau ansawdd allanol

Rhaid i'r rhai sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd allanol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

Bod y Consortiwm yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cyswllt/penodedigion feddu ar gymhwyster sicrhau ansawdd allanol, sef naill ai:

- D35 - Gwirio'r Broses Asesu'n Allanol (D35) neu V2 - Lefel 4 Tystysgrif mewn Sicrhau Ansawdd y Broses Asesu yn Allanol (V2)
- Lefel 4 Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Allanol.

Bydd Swyddogion Cyswllt/penodedigion yn gweithio tuag at ennill y cymhwyster sicrhau ansawdd allanol cyfredol (TAQA) neu byddant eisoes wedi'i ennill, neu byddant yn meddu ar hen gymhwyster fel V2/D35.

Lle y bo swyddog sicrhau ansawdd allanol yn gweithio tuag at fodloni'r gofynion ar gyfer swyddogion sicrhau ansawdd allanol, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd allanol arall o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

## Trefniadau cymedroli asesu mewnol

Mae prosesau sicrhau ansawdd allanol ar waith i gadarnhau dilysrwydd a dibynadwyedd barnau a phrosesau asesu sy'n cael eu gwneud a'u dilyn gan staff canolfannau, fel sy'n briodol i'r cymhwyster hwn.

Bydd y barnau a'r prosesau asesu mewnol yn destun samplu a gwaith monitro seiliedig ar risg gan swyddogion sicrhau ansawdd allanol er mwyn sicrhau bod barnau asesu canolfannau yn gyson ac yn ddilys. Cyflawnir gweithgareddau sicrhau ansawdd gan swyddogion cyswllt asesu cymwys a hyfforddedig sy'n meddu ar y cymwysterau priodol. Ym mhob achos o samplu'r barnau asesu mewnol a'r prosesau sicrhau ansawdd, rhoddir adborth ysgrifenedig ffurfiol gan City & Guilds.

Bydd y Consortiwm yn ymchwilio i unrhyw achos sylweddol o ddiffyg cydymffurfio neu unrhyw bryder a ddaw'n amlwg wrth fonitro'n allanol. O ganlyniad i'r gweithgarwch hwn, gellir gweithredu a/neu osod sancsiynau priodol. Mewn rhai achosion gall ymchwiliadau arwain at ddadymrestru'r ganolfan neu'r canolfannau dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses fonitro allanol, gweler y Llawlyfr Gweinyddu (Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC) sydd ar gael ar wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru

## Apêl fewnol

Dylai canolfannau fod wedi rhoi proses fewnol ar waith er mwyn i ddysgwyr apelio yn erbyn y ffordd y bydd asesiadau'n cael eu marcio'n fewnol. Rhaid i'r broses fewnol gynnwys rhoi gwybod i ddysgwyr am y canlyniadau mae'r ganolfan wedi'u rhoi ar gyfer elfennau a asesir yn fewnol, gan y bydd angen y rhain arnyn nhw i benderfynu a ydyn nhw am apelio ai peidio.

## Ffactorau sy'n effeithio ar ymgeiswyr unigol

Os bydd gwaith yn cael ei golli, dylid rhoi gwybod i City & Guilds yn syth am ddyddiad colli’r gwaith, sut digwyddodd hyn, a phwy oedd yn gyfrifol am ei golli. Dylai canolfannau ddefnyddio ffurflen y CGC, JCQ/LCW, i roi gwybod i Wasanaethau Cwsmeriaid City & Guilds am yr amgylchiadau.

Mae'n bosibl y bydd angen sylw unigol ar ymgeiswyr sy'n symud o un ganolfan i ganolfan arall yn ystod y cwrs. Mae’r camau gweithredu posibl yn dibynnu ar yr adeg pan mae'r dysgwr yn symud. Dylai canolfannau gysylltu â City & Guilds cyn gynted â phosibl i ofyn am gyngor ar drefniadau priodol mewn achosion unigol.

## Camymddwyn

Gweler nodiadau canllaw City & Guilds, *Managing cases of suspected malpractice in examinations and assessments*. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn adnabod achosion o gamymddwyn gan ddysgwyr a/neu staff canolfan a rhoi gwybod amdanynt, a'r camau y gall City & Guilds eu cymryd ar ôl hynny. Mae'r ddogfen yn cynnwys enghreifftiau o gamymddwyn gan ddysgwyr a chanolfannau ac yn esbonio cyfrifoldebau staff canolfannau i roi gwybod am achosion o gamymddwyn gwirioneddol neu gamymddwyn a amheuir. Gall canolfannau gael gafael ar y ddogfen hon ar wefan City & Guilds.

Nodir enghreifftiau o gamymddwyn gan ddysgwyr isod (sylwer nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- ffugio tystiolaeth asesu neu ddogfennau canlyniadau
- llên-ladrad o unrhyw fath
- cydgynllwynio ag eraill
- copïo gwaith ymgeisydd arall (gan gynnwys defnyddio TGCh er mwyn helpu i wneud hynny), neu ganiatáu i waith gael ei gopïo
- dinistrio gwaith rhywun arall yn fwriadol
- datganiadau dilysrwydd anwir mewn perthynas ag asesiadau
- personadu.

Mae gweithredu fel hyn yn gyfystyr â chamymddwyn, a bydd cosb (e.e. diarddel o’r asesiad) am wneud hyn.

Gweler y ffurflen yn y ddogfen *Managing cases of suspected malpractice in examinations and assessments*.

## Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig

Ystyr trefniadau mynediad yw addasiadau sy'n galluogi ymgeiswyr ag anableddau, anghenion addysgol arbennig ac anafiadau dros dro i ymgymryd â'r asesiad a dangos eu sgiliau a'u gwybodaeth heb newid gofynion yr asesiad. Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu gwneud cyn i asesiad gael ei gynnal.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau ar ddechrau rhaglen ddysgu y bydd ymgeiswyr yn cael cyfle i fodloni gofynion y cymhwyster.

Gweler dogfennau'r CGC sef *Access arrangements and reasonable adjustments* ac *Access arrangements - when and how applications need to be made to City & Guilds* am ragor o wybodaeth. Mae'r rhain ar gael ar wefan City & Guilds:
**http://www.cityandguilds.com/delivering-ourqualifications/centre-development/centre-document-library/policies-andprocedures/access-arrangements-reasonable-adjustments**

## Ystyriaeth arbennig

Gallwn roi ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr sydd wedi cael salwch, anaf neu anhwylder dros dro ar adeg yr asesiad. Lle y byddwn yn gwneud hyn, bydd yn digwydd ar ôl yr asesiad.

Dylai'r Swyddog Arholiadau (neu unigolyn sy'n cyflawni rôl gyfatebol) yn y ganolfan gyflwyno ceisiadau am drefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig i City & Guilds. Am ragor o wybodaeth, gweler y fersiwn gyfredol o ddogfen y CGC, *A guide to the special consideration process (Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig* – yn Gymraeg ar wefan CBAC). Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan City & Guilds: **http://www.cityandguilds.com/delivering-ourqualifications/ centre-development/centre-document-library/policies-andprocedures/**
**access-arrangements-reasonable-adjustments**

# 4 Asesu

## Crynodeb o'r dulliau asesu

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- portffolio o dystiolaeth
- log myfyriol
- arsylwi ar ymarfer yn uniongyrchol
- trafodaeth broffesiynol

Mae'r asesiadau wedi cael eu dylunio i'r ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o ran yr unedau gorfodol a chynnwys eu dewis lwybr. Mae'r asesiadau yn cwmpasu elfennau ysgrifenedig er mwyn adlewyrchu gwybodaeth a dealltwriaeth, yn ogystal ag elfennau ymarferol sy'n cynnwys arsylwi ar ymarfer dysgwyr yn uniongyrchol er mwyn cadarnhau eu cymhwysedd o ran y sgiliau ymarferol sydd eu hangen ar gyfer cynnwys eu dewis lwybr.

Gellir lawrlwytho pecyn asesu sy'n nodi gofynion penodol yr asesiad o wefan y Consortiwm.

## Efelychiad

Creu sefyllfa artiffisial at bwrpasau asesu yw efelychu. Dylai unrhyw efelychu gael ei gyfyngu i gael tystiolaeth lle nad yw'n bosibl ei gynhyrchu'n naturiol drwy weithgareddau gwaith arferol (e.e. oherwydd pryderon yn ymwneud ag iechyd a diogelwch).

Yn y cymhwyster hwn, **ni** chaniateir efelychu.

## Cyfyngiadau amser

Rhaid rhoi'r cyfyngiadau canlynol ar waith wrth asesu'r cymhwyster hwn:

- rhaid cyflawni pob uned a chwblhau ac asesu gofynion cysylltiedig o fewn cyfnod ymrestru'r ymgeisydd.

## Cydnabod dysgu blaenorol (CDB)

Ystyr cydnabod dysgu blaenorol yw defnyddio profiad neu gymwysterau blaenorol dysgwyr a gyflawnwyd yn barod i gyfrannu tuag at gymhwyster newydd. Ni chaniateir cydnabod dysgu blaenorol ar gyfer y cymhwyster hwn.

## Dyfarnu'r cymhwyster

Dyfernir y cymhwyster yn seiliedig ar gwblhau'r holl dasgau asesu. Rhaid i'r ymgeiswyr lwyddo ym mhob asesiad er mwyn cael gradd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster.

## Cyfleoedd ailsefyll

Ni chyfyngir ar nifer y troeon y gellir ailsefyll ar gyfer y cymhwyster hwn.

Gweler y pecyn asesu am ganllawiau ar y cyfleoedd ailsefyll sydd ar gael i ymgeiswyr sy'n cwblhau'r asesiadau, ac am ganllawiau ar y camau i'w cymryd pan fydd ymgeisydd yn methu wrth gwblhau unrhyw elfen o'r asesiad.

## Rolau

Bydd y rolau canlynol yn ymwneud â'r gwaith o asesu'r cymhwyster hwn.

**Aseswr mewnol**[1] – bydd aseswr cymwysedig yn cefnogi'r broses o gynnal yr asesiad. Bydd yr aseswr mewnol yn gyfrifol am arddel barn asesu am y tasgau a asesir yn fewnol.

**Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol** – yn sicrhau bod unrhyw dystiolaeth asesu a gyflwynir yn fewnol o ansawdd cyson a phriodol.

**Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol** – yn gyfrifol am gadarnhau bod y gwaith o gynllunio, cynnal ac asesu'r tasgau a asesir yn fewnol wedi'i wneud yn unol â pholisïau a gweithdrefnau City & Guilds.

**Cyflogwr/Rheolwr** – yn deall prosesau mewnol arferol y gweithle/lleoliad, dogfennaeth, systemau cyfathrebu ac ati, a gall asesu p'un a yw'r ymgeisydd yn eu defnyddio'n briodol ai peidio. Lle y bo'n briodol gall ddarparu tystiolaeth fel tyst arbenigol ar gyfer y portffolio o ran arferion dyddiol y gweithle.

**Gweithiwr Proffesiynol Arall** – tyst arbenigol – ar gyfer gweithdrefnau arbenigol neu unedau y mae angen arbenigedd penodol arnyn nhw, gall lleoliadau ddarparu tystiolaeth ychwanegol gan dyst arbenigol.

**Aseswr Allanol City & Guilds**[2] – aseswr cymwysedig, a benodwyd gan City & Guilds, sy'n gyfrifol am arddel y farn asesu derfynol am yr ymgeisydd ar gyfer y tasgau a asesir yn allanol.

**Aseswr Arweiniol City & Guilds** – bydd yn gyfrifol am samplu a safoni
barn asesu aseswyr allanol.

**Tiwtor** – yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys y cymhwyster. Gall y tiwtor gefnogi mynediad at yr asesiad ond ni fydd yn gyfrifol am benderfynu ar ganlyniadau asesu.

**Nodyn**

Lle bydd yr ymgeisydd yn gweithio mewn sefyllfa lle nad oes perthynas reoli uniongyrchol, byddai disgwyl i elfennau'r broses a nodir yma lle mae angen i reolwr gymryd perchenogaeth ohonynt gael eu cyflawni'n llawn drwy rôl yr aseswr.

[1] I gadarnhau gofynion asesu mewnol y cymhwyster hwn, gweler yr adran **'Gofynion canolfannau'** yn Llawlyfr y Cymhwyster hwn

[2] I gadarnhau gofynion asesu allanol y cymhwyster hwn, gweler yr adran **'Cyflwyno'r Cymhwyster'** yn Llawlyfr y Cymhwyster hwn

# 5 Unedau

## Argaeledd unedau

Mae'r holl unedau wedi'u cynnwys yn y llawlyfr cymhwyster hwn;

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned |
|---|---|
| 434 | Cefnogi gofalwyr Lleoli Oedolion/ Cysylltu Bywydau |
| 435 | Meithrin dealltwriaeth o ddementia |
| 436 | Meithrin dealltwriaeth o anabledd dysgu ac awtistiaeth |
| 437 | Meithrin dealltwriaeth o salwch meddwl |

## Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau

Mae'r crynodeb canlynol yn rhoi canllawiau ar y gwahanol elfennau sydd i'w cael yn yr unedau a gwybodaeth am gyflwyno'r unedau.

**Gwerth oriau dysgu dan arweiniad (ODA)**

Mae'r gwerth hwn yn nodi faint o Oriau Dysgu dan Arweiniad y bydd eu hangen ar gyfer cyflwyno uned i ymgeisydd, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cynnwys cyswllt â thiwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr fel rhan o'r broses ddysgu, a dysgu ffurfiol gan gynnwys dosbarthiadau, sesiynau hyfforddi, seminarau a thiwtorialau. Mae'r gwerth hwn hefyd yn cynnwys yr amser a gymerir i baratoi ar gyfer asesu'r uned, a'i gwblhau. Mae oriau dysgu dan arweiniad yn cael eu talgrynnu i'r pum awr agosaf.

**Gwerth credyd**

Mae'r gwerth hwn yn seiliedig ar yr oriau dysgu dan arweiniad **yn ogystal ag** unrhyw amser dysgu ychwanegol neu weithgareddau ychwanegol y bydd eu hangen ar y dysgwr i gwblhau'r uned. Er enghraifft, gall hyn gynnwys amser ar gyfer dysgu anffurfiol, astudio preifat, ymarfer, myfyrio ac ati. Mae cyfanswm yr oriau yn cael ei rannu â 10 i roi'r gwerth credyd. Mae gwerthoedd credyd yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

**Crynodeb o'r uned**

Yn y rhan hon mae crynodeb byr, lefel uchel o gynnwys yr uned yn ymdrin â'r wybodaeth ac ymarfer sydd dan sylw. Hefyd, gall y crynodeb o'r uned roi gwybodaeth am fathau o leoliadau y mae'r uned yn berthnasol iddyn nhw neu wedi'i hatal rhag cael ei chyflwyno ynddyn nhw.

**Deilliannau dysgu**

Mae deilliannau dysgu yn grwpio darnau o wybodaeth gysylltiedig ynghyd ac yn cael eu cyflwyno fel canlyniad y broses ddysgu, h.y. yr hyn y mae'n rhaid i ddysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud yn dilyn yr addysgu a'r dysgu. Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu.

**Meini prawf asesu**

Mae meini prawf asesu'n rhannu'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w cyflawni. Gall meini prawf asesu gael eu hategu gan ystod, a nodir gan eiriau neu ymadroddion mewn **print trwm.**

**Amrediad**

Bydd rhai geiriau neu ymadroddion yn y meini prawf asesu mewn testun **trwm**. Mae hyn yn golygu bod amrediad wedi cael ei chyflwyno a fydd i'w gweld ar waelod y deilliant dysgu. Mae'r amrediad yn cynnwys gwybodaeth am faint o ddyfnder a manylder sydd eu hangen ar gyfer maen prawf asesu penodol.  Nid yw'r amrediad yn rhestr gynhwysfawr, gallai enghreifftiau eraill fod yn addas i'r maes testun hwn. Y gosodiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr amrediad yw'r rheini sy'n allweddol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned – **rhaid ymdrin** â'r holl elfennau a restrir yn yr amrediad fel rhan o gyflwyno'r uned.

**Canllawiau cyflwyno**

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr wrth addysgu'r uned ac maen nhw'n cynnwys ystyriaethau penodol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned lle y bo hynny'n berthnasol. Er enghraifft, cysylltiadau y gellir eu gwneud rhwng unedau o fewn y cymhwyster neu enghreifftiau o'r ffordd y gellir cyflwyno'r cynnwys i ddysgwyr.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) cysylltiedig**

Cyflwynir y rhain fel canllaw i diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr sy'n cyflwyno'r cynnwys ac maen nhw'n dangos lle y gall cynnwys yr unedau fod yn berthnasol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gael eu cyflwyno fel rhan o unedau. D.S. – er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y rhai a restrir yn gyfredol, mae'n bosibl y bydd fersiynau newydd neu ddiwygiedig o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn disodli'r rhai a restrir.

**Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig**

Cyflwynir y rhain er hwylustod cyfeirio ac er mwyn rhoi cyd-destun i'r uned, a gellir eu defnyddio er mwyn helpu i gyflwyno'r cynnwys a rhoi cyd-destun ehangach. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Dylid sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth, canllawiau, gwefannau a dogfennau ac ati a restrir yn gyfredol ac yn berthnasol cyn cyflwyno cynnwys yr uned.

# Uned 434 Cefnogi gofalwyr lleoli oedolion/ cysylltu bywydau

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 115 |
| **Credyd:** | 27 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, a sgiliau'r gweithwyr hynny sy'n gyfrifol am gefnogi lleoliadau/trefniadau cysylltu bywydau a Gofalwyr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'gofalwyr' yn cyfeirio at ofalwyr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall rôl gwasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Ethos Cysylltu Bywydau

1.2 **Gofynion deddfwriaethol a rheoliadol** gwasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau

1.3 Sut mae **dull seiliedig ar werthoedd** wedi cael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth, polisïau ac arferion ar gyfer cefnogi unigolion mewn trefniant Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau

1.4 Rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwyddau'r **rheini sydd ynghlwm wrth wasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau**

1.5 **Mathau o wasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau** a'r goblygiadau o ran eu darparu

### Amrediad:

**Gofynion deddfwriaethol a rheoliadol:** Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Lleoli Oedolion Ebrill 2019

**Dull seiliedig ar werthoedd:** egwyddorion a gwerthoedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (llais a rheolaeth, atal ac ymyrryd yn gynnar, llesiant, cydgynhyrchu, gwaith partneriaeth/amlasiantaeth), cynhwysiant cymunedol a chefnogi cyfranogi mewn amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon a werthfawrogir

**Y rheini sydd ynghlwm wrth wasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau:** gofalwr lleoli oedolion/cysylltu bywydau, gweithiwr, rheolwr cofrestredig, unigolyn cyfrifol a gweithwyr proffesiynol eraill
**Mathau o wasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau:** Cymorth llety hirdymor, seibiannau byr, cymorth yn ystod y dydd, cymorth gan berthynas

---

## Deilliant dysgu:

2. Cefnogi'r gwaith o recriwtio, asesu a chymeradwyo gofalwyr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 **Gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol recriwtio, asesu a chymeradwyo gofalwyr**
2.2 Dulliau o asesu addasrwydd ymgeiswyr
2.3 Rôl yr unigolyn ac eraill wrth recriwtio, asesu a chymeradwyo gofalwyr
2.4 Gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol **sefydlu gofalwyr**

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.5 Cyflawni eich rôl a'ch cyfrifoldebau chi'ch hun o ran recriwtio, asesu, cymeradwyo a sefydlu gofalwyr yn unol â gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol
2.6 Gweithredu fel cennad ar gyfer gwasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau gan hyrwyddo buddiannau unigolion, gofalwyr a chomisiynwyr

### Amrediad:

**Gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol:** Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Lleoli Oedolion Ebrill 2019 yn ogystal ag unrhyw ofynion sefydliadol ychwanegol

**Recriwtio, asesu a chymeradwyo gofalwyr:** addasrwydd yr ymgeisydd ac eraill sy'n rhannu'r safle, addasrwydd y safle, cyfleusterau a lleoliad, cynorthwyo'r ymgeisydd i ddeall pob agwedd ar gytundeb y gofalwr
**Sefydlu gofalwyr:** gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol, cytundeb y gofalwr, rolau a chyfrifoldebau'r rheini sydd ynghlwm wrth y gwasanaeth Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau, y broses leoli/trefniant, safle, cyfleusterau a chyfarpar, diogelu, hyfforddiant cyffredinol a phenodol, arferion gorau sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru

---

## Deilliant dysgu:

3. Cefnogi trefniant y lleoliad rhwng unigolion a gofalwyr

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Y **broses asesu** ar gyfer unigolion sy'n ceisio trefniant Cysylltu Bywydau

3.2 Sut i sicrhau bod yr unigolyn a'r gofalwr yn cyd-dynnu ac addasrwydd y lleoliad/trefniant arfaethedig

3.3 Gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol ar gyfer cynnal ymweliadau cychwynnol/peilot â chartref gofalwr

3.4 **Camau** i'w cymryd pan na fydd y lleoliad/trefniant arfaethedig yn addas

3.5 Effeithiau posibl newid a throsglwyddo ar unigolion, gofalwyr ac aelodau eraill o'r cartref

3.6 Gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol datblygu, monitro ac adolygu cynllun personol yr unigolyn

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.7 Cyflawni rôl a chyfrifoldebau cytûn sy'n **cefnogi lleoliadau/trefniadau rhwng unigolion a gofalwyr** yn unol â gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol

3.8 Helpu unigolion a'u gofalwyr i ddeall effaith newid a throsglwyddo ar lesiant

3.9 Helpu unigolion a gofalwyr i nodi'r canlynol, o ran eu hunain ac aelodau eraill o'r cartref:

- effeithiau posibl newid a throsglwyddo
- rhwystrau i newid a throsglwyddo yn llwyddiannus
- canlyniadau cadarnhaol newid a throsglwyddo
- eu cryfderau a'u galluoedd eu hunain a fydd yn cyfrannu at newid a throsglwyddo yn llwyddiannus

3.10 Galluogi gofalwyr i weithio gydag unigolion er mwyn nodi unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen i'w helpu i newid a throsglwyddo

3.11 Defnyddio cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau personol i nodi:

- unrhyw hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen ar ofalwyr
- addasiadau i'r amgylchedd
- darparu cyfleusterau neu gyfarpar

y gall fod eu hangen i gefnogi'r unigolyn

### Amrediad:

**Y broses asesu:** cyfrifoldebau am lunio cynllun gofal a chymorth fel rhan o leoliad/trefniant wedi'i gynllunio neu dderbyn unigolyn ar frys, hunanasesiad lle caiff ei ariannu'n annibynnol, amgylchiadau lle na chaiff gwasanaeth ei ddarparu

**Dulliau:** cyfathrebu, cefnogi'r unigolyn a'r gofalwr, defnyddio profiadau cyflwyno i greu trefniant mwy addas

**Cefnogi lleoliadau/trefniadau rhwng unigolion a gofalwyr:** datblygu cynllun personol gydag unigolion a gofalwyr, ymweliadau cychwynnol/peilot sy'n gymesur â'r lleoliad/trefniant arfaethedig, cydnawsedd ac addasrwydd y lleoliad/trefniant, nodi risgiau posibl i'r unigolyn, gofalwr ac aelodau eraill o'r cartref a sut y caiff y rhain eu lliniaru, darparu cytundeb unigol ar gyfer lleoliad/trefniant, gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill

## Deilliant dysgu:

4. Cefnogi gofalwyr i ddarparu lleoliadau/trefniadau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau

## Meini prawf asesu

### Rydych yn deall:

4.1 Gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol **monitro ac adolygu** lleoliadau/trefniadau Cysylltu Bywydau
4.2 Rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwyddau'r rheini sydd ynghlwm wrth fonitro ac adolygu lleoliadau/trefniadau Cysylltu Bywydau
4.3 Sut i sicrhau bod gofalwyr yn cefnogi unigolion i:

- leisio barn a chael rheolaeth dros benderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth a'r lleoliad/trefniant Cysylltu Bywydau
- nodi'r canlyniadau maent am eu cyflawni a'r ffordd orau o'u helpu i wneud hyn
- nodi a chydnabod eu cryfderau a'u sgiliau
- datblygu a chynnal sgiliau sy'n eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau, profiadau a thasgau beunyddiol sy'n hyrwyddo annibyniaeth
- cydbwyso eu hawliau, cyfrifoldebau a risgiau
- cynnal perthnasoedd presennol a datblygu rhai newydd
- gwerthuso'r gwaith o gyflawni eu canlyniadau a nodwyd

4.4 Heriau posibl a sut i helpu gofalwyr i ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â'r rhain
4.5 Pryd a sut i gael gafael ar gymorth ychwanegol lle mae heriau o ran y lleoliad/trefniant
4.6 Sut i gefnogi unigolion a gofalwyr pan na fydd y lleoliad/trefniant yn addas mwyach

### Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.7 Cyflawni eich rôl a'ch cyfrifoldebau chi'ch hun o ran **monitro ac adolygu'r** lleoliad/trefniant Cysylltu Bywydau yn unol â gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol

4.8 Cynorthwyo gofalwyr i:

- weithio gydag unigolion er mwyn nodi hanes, diwylliant, hoff ddewisiadau, dymuniadau ac anghenion unigolion ac adlewyrchu hyn yn eu hymarfer
- gweithio mewn ffordd gydgynhyrchiol sy'n cefnogi unigolion i leisio barn a chael rheolaeth dros benderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth a'r trefniant Cysylltu Bywydau
- ystyried pob agwedd ar lesiant unigolion fel rhan o'u harferion beunyddiol
- hyrwyddo cymryd rhan mewn gweithgareddau, profiadau a thasgau beunyddiol sy'n hyrwyddo annibyniaeth
- defnyddio cynlluniau rheoli risg er mwyn helpu unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol
- defnyddio dulliau person-ganolog o gyfathrebu
- hyrwyddo hunan-barch, ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn unigolion
- hyrwyddo parch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant unigolion yn eu hymarfer
- sefydlu dull seiliedig ar hawliau yn eu hymarfer

- cynorthwyo unigolion i ddatblygu ymlyniadau a pherthnasoedd cadarnhaol, cadarn ac iach
- gweithio mewn ffyrdd sy'n diogelu unigolion rhag niwed neu gamdriniaeth
- hyrwyddo opsiynau iach a chael cymorth ym maes gofal iechyd

4.9 Sicrhau bod modd i ofalwyr achub ar gyfleoedd datblygu sy'n eu helpu i ddatblygu'r wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sydd eu hangen i weithio gydag unigolion er mwyn nodi a chyflawni canlyniadau cadarnhaol

4.10 Rhoi adborth adeiladol i ofalwyr ar y lleoliad/trefniant Cysylltu Bywydau a'u hymarfer mewn modd amserol

4.11 Defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar atebion er mwyn cefnogi gofalwyr i fynd i'r afael â heriau

4.12 Cyfeirio at weithwyr proffesiynol/gwasanaethau eraill os bydd angen cymorth ychwanegol

4.13 Sicrhau bod unigolion:

- yn gallu cael gafael ar gofnodion ac adroddiadau arnynt mewn fformatau hygyrch
- yn cael cyfleoedd i wneud sylwadau, mynegi pryderon, herio neu gwyno am gynnwys cofnodion, adroddiadau neu wybodaeth amdanynt

**Amrediad:**

**Monitro ac adolygu:** yn erbyn cytundeb y gofalwr a chyflawni cynllun personol yr unigolyn

---

## Deilliant dysgu:

5. Meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Beth yw ystyr 'gweithio perthynas-ganolog'

5.2 Pwysigrwydd meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â:

- Gofalwyr
- Unigolion
- Gweithwyr proffesiynol eraill

5.3 Beth yw ystyr 'ffiniau proffesiynol' a sut y gall y rhain gael eu cydbwyso â gweithio perthynas-ganolog

5.4 Heriau posibl o ran cynnal ffiniau proffesiynol a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.5 Datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol â gofalwyr, unigolion a gweithwyr proffesiynol eraill wrth gynnal ffiniau proffesiynol ar yr un pryd

## Deilliant dysgu:

6. Arwain a rheoli cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol o ran diogelu unigolion

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n helpu gofalwyr i fodloni gofynion diogelu

6.2 Monitro cydymffurfiaeth â gofynion diogelu a chymryd camau lle na cheir cydymffurfiaeth

6.3 Rheoli perfformiad gofalwyr er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol diogelu

**Amrediad:**

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol

## Deilliant dysgu:

7. Datblygu a chynnal gwybodaeth a dealltwriaeth y gofalwr o ran diogelu unigolion

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

7.1 Sicrhau bod gofalwyr yn deall gwybodaeth am arwyddion a symptomau a all ddynodi bod unigolyn wedi cael ei niweidio neu ei gam-drin, neu ei fod yn wynebu risg o hynny

7.2 Sicrhau bod gofalwyr yn deall gwybodaeth am ofynion lle mae pryderon bod unigolyn wedi cael ei niweidio neu ei gam-drin, neu ei fod yn wynebu risg o hynny

7.3 Sicrhau bod gofalwyr yn deall rôl gwahanol asiantaethau, gan gynnwys gwasanaethau eirioli, o ran diogelu unigolion

7.4 Sicrhau bod gofalwyr yn deall sut i osgoi camau a datganiadau a allai gael effaith andwyol ar ddefnyddio tystiolaeth mewn ymchwiliadau yn y dyfodol neu yn y llys, wrth roi blaenoriaeth i amddiffyn unigolion

7.5 Cynorthwyo gofalwyr i fyfyrio ar eu hymddygiad er mwyn sicrhau nad yw'n cyfrannu at sefyllfaoedd, camau gweithredu nac ymddygiad a all fod yn niweidiol neu'n gamdriniol

7.6 Myfyrio ar eich ymddygiad eich hun yn barhaus er mwyn sicrhau nad yw'n cyfrannu at sefyllfaoedd, camau gweithredu nac ymddygiad a all fod yn niweidiol neu'n gamdriniol

## Deilliant dysgu:

8. Arwain ymarfer sy'n cynorthwyo gofalwyr i ddiogelu unigolion rhag niwed a chamdriniaeth

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

8.1 Sicrhau bod gofalwyr yn deall eu cyfrifoldeb i egluro wrth unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr eu bod yn atebol i ddatgelu unrhyw wybodaeth am achos posibl neu wirioneddol o niwed neu gam-drin

8.2 Sicrhau bod gofalwyr yn cael cefnogaeth i weithio gydag unigolion ac eraill er mwyn cytuno ar weithdrefnau i'w dilyn os bydd sefyllfaoedd, digwyddiadau neu ymddygiad a allai beri niwed neu gam-drin

8.3 Sicrhau bod gofalwyr yn cael cefnogaeth i weithredu ar unwaith os byddant yn gweld arwyddion neu symptomau o niwed neu gam-drin neu lle y datgelwyd hyn

8.4 Sicrhau bod cofnodion ac adroddiadau yn bodloni **gofynion deddfwriaethol a sefydliadol**

8.5 Dilyn gweithdrefnau cytûn er mwyn trosglwyddo adroddiadau a gwybodaeth am achosion o niwed neu gam-drin a amheuir neu a ddatgelir mewn cytundebau cyfrinachedd

8.6 Defnyddio prosesau goruchwylio a chymorth er mwyn ystyried effaith niwed neu gam-drin a amheuir neu a ddatgelir ar ofalwyr, chi'ch hun ac eraill

8.7 Cael cymorth ychwanegol gyda sefyllfaoedd sydd y tu hwnt i'ch arbenigedd, rôl a'ch cyfrifoldeb eich hun

**Amrediad:**

**Gofynion deddfwriaethol a sefydliadol:** maent yn fanwl, yn gywir, wedi'u hamseru, eu dyddio a'u llofnodi, yn glynu wrth gytundebau cyfrinachedd, yn osgoi'r defnydd o ddatganiadau a allai gael effaith andwyol ar y defnydd o dystiolaeth mewn ymchwiliadau yn y dyfodol ac yn y llys

---

## Deilliant dysgu:

9. Arwain ymarfer sy'n cefnogi hawliau, llesiant a pherthnasoedd cadarnhaol er mwyn hybu diogelu

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

9.1 Cynorthwyo gofalwyr i ddeall y cysylltiadau rhwng ymarfer person-ganolog a diogelu unigolion

9.2 Cefnogi datblygiad diwylliant ac amgylchedd sy'n:
- hyrwyddo ymarfer person-ganolog o ran diogelu unigolion
- cefnogi perthnasoedd cadarnhaol rhwng gofalwyr ac unigolion
- galluogi unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i fynegi eu hofnau, gorbryderon, teimladau a phryderon heb fod ofn gwatwar, cael eu gwrthod na dial

9.3 Sicrhau bod prosesau cyfathrebu yn y lleoliad yn cydnabod cyfrinachedd o fewn ffiniau diogelu

**Amrediad:**

**Ymarfer person-ganolog:** mae'n cefnogi unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol, yn hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol unigolion, yn hyrwyddo cyfathrebu person/plentyn-ganolog, ac yn cefnogi newid a throsglwyddo

---

## Deilliant dysgu:

10. Arwain a chefnogi ymarfer sy'n galluogi unigolion i gadw eu hunain yn ddiogel

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

10.1 Arwain ymarfer sy'n herio ymddygiad neu weithredoedd a all arwain at niwed neu gamdriniaeth

10.2 Cynorthwyo gofalwyr i weithio gydag unigolion i nodi ffactorau, sefyllfaoedd a gweithredoedd a all achosi niwed a chamdriniaeth, neu arwain at hynny

10.3 Cynorthwyo gofalwyr i weithio gydag unigolion i nodi beth sydd angen ei ddarparu er mwyn osgoi sefyllfaoedd a all arwain at niwed neu gamdriniaeth

10.4 Gweithio gydag eraill i gefnogi gofalwyr i gytuno ar ffiniau teg, diogel, cyson a dealladwy gydag unigolion er mwyn eu cadw'n ddiogel

10.5 Arwain a chefnogi ymarfer sy'n galluogi unigolion i adnabod achosion lle na fydd yr ymddygiad tuag atyn nhw neu eraill yn briodol nac yn dderbyniol

---

## Deilliant dysgu:

11. Cynnal a diweddaru eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun er mwyn adlewyrchu arfer gorau

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

11.1 Gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun

11.2 Sut i sefydlu eich anghenion dysgu a datblygu eich hun a chyfleoedd datblygu a all gael eu defnyddio i'w diwallu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

11.3 Defnyddio prosesau goruchwylio ac arfarnu i fyfyrio ar anghenion dysgu a datblygu ac ymarfer

11.4 Defnyddio ymchwil, adroddiadau ac adolygiadau i ddiweddaru gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn rheolaidd

---

# Uned 434 Cefnogi gofalwyr lleoli oedolion/ cysylltu bywydau

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Lleoli Oedolion:** Cysylltu Bywydau yw'r enw cyffredin am hyn, ac mae'n cynnwys darparu llety, gofal a chymorth o dan gytundeb Lleoli Oedolion

**Gwasanaeth Lleoli Oedolion:** 'Gwasanaeth Cysylltu Bywydau' yw'r enw cyffredin am hwn a gall gael ei ddarparu i awdurdodau lleol, y trydydd sector neu ddarparwyr preifat. Yn ôl y rheoliadau mae'n: '[g]wasanaeth a gynhelir (pa un ai er elw ai peidio) gan awdurdod lleol neu berson arall at ddibenion lleoli oedolion gydag unigolyn yng Nghymru o dan gytundeb gofalwr (ac mae’n cynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer recriwtio, hyfforddi a goruchwylio unigolion o’r fath)'. Byddai gwasanaethau Cysylltu Bywydau yn cyfeirio at baru oedolion ag unigolion yn hytrach na'u 'lleoli' gyda nhw

**Cytundeb gofalwr** cytundeb rhwng y darparwr gwasanaeth a'r gofalwr Lleoli Oedolion, sy'n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- briod rolau a chyfrifoldebau'r darparwr gwasanaeth a gofalwyr lleoli oedolion;
- y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i ofalwr lleoli oedolion eu dilyn
- y trefniadau y bydd y darparwr gwasanaeth yn eu rhoi ar waith i asesu ac adolygu'r safle, cyfleusterau a chyfarpar a ddefnyddir gan y gofalwr lleoli oedolion i ddarparu gofal a chymorth mewn lleoliad posibl i oedolion
- unrhyw beth sy'n ofynnol er mwyn cynorthwyo unigolyn i gael triniaeth, cyngor neu unrhyw wasanaethau eraill gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol
- y trefniadau ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau'n ddiogel (lle y bo'n gymwys)
- y trefniadau i gynorthwyo unigolion i reoli eu harian
- gwybodaeth am y costau sy'n daladwy gan y darparwr gwasanaeth i Ofalwyr Lleoli Oedolion; a
- gwybodaeth sy'n ymwneud â therfynu cytundeb gofalwr

Gall **cyfleoedd datblygu** gynnwys cymysgedd o raglenni addysgol, gweithgareddau hyfforddi, mentora, coetsio, cysgodi, sefydlu, goruchwylio, darllen dan arweiniad, ymchwil, setiau dysgu gweithredol, trafodaethau grwpiau cyfoedion

**Cytundeb Lleoli Unigol:** cytundeb rhwng darparwr gwasanaeth, Gofalwr Lleoli Oedolion ac unigolyn i Ofalwr Lleoli Oedolion ddarparu llety a gofal a chymorth i'r unigolyn hwnnw. Byddai'r cytundeb hefyd yn cynnwys comisiynwyr y gwasanaeth

**Gofynion deddfwriaethol a rheoliadol gwasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau;** byddent yn cynnwys Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016; Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019; Canllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Lleoli Oedolion Ebrill 2019

**Rheoli perfformiad gofalwyr:** byddai hyn yn cynnwys:

- Recriwtio a dethol diogel
- Darparu cyfnod sefydlu effeithiol
- Darparu cyfleoedd datblygu
- Hyrwyddo polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad a sicrhau cydymffurfiaeth â nhw
- Hyrwyddo Codau Ymddygiad ac Ymarfer a sicrhau cydymffurfiaeth â nhw
- Monitro a chefnogi, ac adolygu, gofalwyr yn rheolaidd

**Cynllun personol:** mae'n seiliedig ar y cynllun gofal a chymorth ac yn cynnwys: y camau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion llesiant, gofal a chymorth yr unigolyn o ddydd i ddydd, ei hoff ddewisiadau a sut y darperir ar eu cyfer, sut y cynorthwyir yr unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol, sut y caiff dymuniadau, dyheadau a chredoau crefyddol yr unigolyn eu cefnogi, camau i nodi risgiau i lesiant yr unigolyn a sut y rheolir hyn, camau i gefnogi cymryd risgiau cadarnhaol, camau i gynnal, ailalluogi a/neu gyflawni annibyniaeth

**Heriau posibl:** gallent gynnwys:

- Dynameg o fewn y cartref
- Ymddygiadol
- Materion yn ymwneud â chydnawsedd
- Anghenion newidiol unigolion
- Amgylchiadau newidiol gofalwyr
- Materion diogelu

Byddai **rhoi adborth adeiladol i ofalwyr** yn cynnwys:

- Cymorth a mentora rheolaidd
- Adolygiadau blynyddol o ofalwyr
- Adborth yn dilyn adolygiadau o leoliadau/trefniadau

Byddai **cyfrifoldebau am ddatblygu cynllun gofal a chymorth** yn cynnwys comisiynwyr y gwasanaeth e.e. gofal cymdeithasol, y GIG. Y gwasanaeth prawf

Mae **amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon** yn cyfeirio at y cydbwysedd o weithgareddau sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd da i unigolion, gan ymgorffori gweithgareddau galwedigaethol, domestig, personol, hamdden, addysgol a chymdeithasol.

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016; Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019; Canllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Lleoli Oedolion Ebrill 2019
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 http://www.myguideapps.com/projects/wales_safeguarding_procedures/default/index.html

### ***Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig***

- SCDLMC B1 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu diogelu unigolion
- SCDHSC 0431 Cefnogi unigolion sydd wedi profi niwed a chamdriniaeth

# Uned 435 Meithrin dealltwriaeth o ddementia

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 55 |
| **Credyd:** | 18 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi gofalwyr sy'n darparu lleoliadau/trefniadau cysylltu bywydau i unigolion sy'n byw gyda dementia<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at unigolion sy'n byw gyda dementia o grwpiau oedran gwahanol ac unigolion ag anabledd dysgu sydd hefyd yn byw gyda dementia<br>Mae'r term 'gofalwyr' yn cyfeirio at ofalwyr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau |

## Deilliant dysgu:

1. Meithrin dealltwriaeth o safbwyntiau a chanfyddiadau ynghylch dementia

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Mathau o ddementia a'u hachosion posibl

1.2 Y gwahaniaethau rhwng y prif fathau o ddementia, a'r hyn sy'n **gyffredin** rhyngddynt

1.3 Y gwahaniaethau rhwng dementia a chyflyrau corfforol ac iechyd meddwl eraill

1.4 Y ffaith nad yw dementia yn rhan naturiol o heneiddio ac y gall effeithio ar bobl iau yn ogystal â phobl hŷn

1.5 Pwysigrwydd gweld y person cyn y dementia

1.6 Sut y gall dementia effeithio ar unigolion mewn ffyrdd gwahanol

1.7 Sut y gall y math o ddementia gael effaith ar alluoedd corfforol, iechyd meddwl a llesiant

1.8 Symptomau seicotig cyffredin a all weithiau ymddangos o ganlyniad i fathau o ddementia

1.9 Sut y gall ffactorau ffordd o fyw effeithio ar:

- y risg o ddatblygu dementia
- arafu datblygiad dementia

1.10 Sut y gall dementia gelu problemau iechyd corfforol sylfaenol

1.11 Sut y gall salwch corfforol gynyddu symptomau dementia dros dro

1.12 Ffactorau risg cynyddol sy'n gysylltiedig â chynnal llesiant corfforol ar gyfer **meysydd gofal corfforol**

1.13 Y risg gynyddol y bydd unigolion ag anabledd dysgu yn datblygu dementia, a'r anawsterau ychwanegol y bydd hyn yn eu peri wrth asesu, rheoli a darparu cymorth

1.14 Sut y gall gweithgarwch a chymorth ym maes hybu iechyd gael effaith gadarnhaol ar fyw gyda dementia

1.15 Y cysyniad o allu gwybyddol a swyddogaethol a sut mae hyn yn llywio ymarfer

1.16 **Amharu ar y cof** a'i effaith o ran dementia

1.17 Y rhannau o'r ymennydd sy'n gysylltiedig â chreadigrwydd ac emosiynau y mae dementia yn effeithio arnynt leiaf aml

1.18 Sut y gall stigma ac agwedd a gwerthoedd negyddol mewn cymdeithas o ran unigolion sy'n byw gyda dementia:

- effeithio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- gwaethygu'r anawsterau a brofir gan unigolion

1.19 Sut y gall gofalwyr gyfrannu at newid agweddau tuag at unigolion sy'n byw gyda dementia

1.20 Sut y gall rhywedd ac ethnigrwydd, ac amgylcheddau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol effeithio ar unigolion a'u teuluoedd/ gofalwyr a'r cymorth a gânt

1.21 Pwysigrwydd yr **amgylchedd ffisegol**

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.22 Cynorthwyo gofalwyr i:

- hyrwyddo canfyddiadau cadarnhaol o unigolion â dementia, ac agweddau cadarnhaol tuag atynt
- gweithio mewn ffyrdd sy'n ymateb yn effeithiol ac yn sensitif i symptomau a chyflwyniad dementia
- ystyried profiad unigolyn o ddementia wrth gydnabod ei gryfderau a'i alluoedd hefyd
- cynorthwyo unigolion i gynnal meysydd gofal corfforol cytûn
- hyrwyddo dewisiadau iach ymhlith unigolion

1.23 Hyrwyddo'r defnydd o ddulliau sy'n cydnabod cryfderau unigol a nodweddion personol

1.24 Herio iaith negyddol, rhagfarn a gwahaniaethu tuag at unigolion sy'n byw gyda dementia

**Amrediad:**

**Pethau sy'n gyffredin:** symptomau cyffredin a chyflwyniad dementia, y cof, arddel barn, iaith ac ymgyfeiriad

**Meysydd gofal corfforol:** rheoli haint, maeth - diet a hylif, symudedd a throsglwyddo diogel, hybu ataliaeth, gofal y croen a hyfywedd meinwe, iechyd y geg, iechyd gweld a chlywed, iechyd rhywiol, asesu cysgu a rheoli poen

**Nam ar y cof:** arwyddocâd cof byrdymor o ran sylweddoli gwybodaeth a thri phrif gategori cof hirdymor, sef cof Semantig (gallu cofio ffeithiau), cof Cyfnodol (gallu cofio digwyddiadau a phrofiadau ac emosiynau) a chof Gweithdrefnol (cof ymhlyg sy'n gysylltiedig â swyddogaeth echddygol fel llofnodi eich enw, gyrru car ac ati.)

**Amgylchedd ffisegol:** Cynllun a dyluniad gofod, lliwiau, golau a phatrymau, labelu – arwyddion i gefnogi annibyniaeth, hygyrchedd, golau a synau, ymaddasu i fodloni'r canfyddiad unigol o'r unigolyn, mannau tawel, amgylchedd awyr agored

## Deilliant Dysgu:

2. Sut i helpu gofalwyr i feithrin dealltwriaeth o ddulliau seiliedig ar hawliau, perthnasoedd cadarnhaol a chyfranogi yn y gymuned

## Meini prawf asesu:

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Helpu gofalwyr i ddeall:

- egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'u goblygiadau o ran cefnogi unigolion
- y cyfarwyddebau cyfreithiol y gall unigolion eu gwneud er mwyn helpu i gynllunio at y dyfodol
- goblygiadau penderfyniadau budd pennaf i unigolion â dementia
- rôl eiriolaeth wrth gefnogi hawliau unigolion
- pam y gall unigolion gael eu hatal rhag cymryd risgiau, neu gael eu darbwyllo rhag gwneud hynny
- pwysigrwydd gallu parhau i gymryd risgiau mewn bywyd bob dydd
- cysylltiadau rhwng cymryd risgiau cadarnhaol a chyfrifoldebau, llais a rheolaeth, a chynhwysiant cymdeithasol
- beth yw ystyr 'yr hawl i gerdded' a sut i helpu unigolion i wneud hyn yn ddiogel
- cysyniad yr opsiwn lleiaf cyfyngol o ran defnyddio dyfeisiau monitro a thracio electronig
- pwysigrwydd gwaith hanes bywyd a chyfathrebu effeithiol er mwyn deall ymddygiadau a all ymddangos yn heriol
- sut a phryd y gall arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol gael eu defnyddio gydag unigolion a phwysigrwydd defnyddio strategaethau rhagweithiol i osgoi'r rhain lle bynnag y bo modd
- beth mae'r hawl i fyw bywyd llawn a gwerthfawr yn ei olygu i unigolion
- pwysigrwydd dulliau seiliedig ar ganlyniadau a chynorthwyo unigolion i fyw mor annibynnol â phosibl
- cysyniad 'niwed distaw', 'diymadferthedd dysgedig' a'r goblygiadau i lesiant unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr
- ystyr y term ‘rôl werthfawr’.
- pwysigrwydd cydnabod a hyrwyddo rolau gwerthfawr unigolion nawr ac yn y gorffennol
- yr effaith gadarnhaol y gall parhau i gyflawni rôl werthfawr ei chael ar lesiant unigolion a sut y cânt eu gweld a'u trin gan eraill mewn cymdeithas
- sut y gall gwaith hanes bywyd gael ei ddefnyddio er mwyn helpu i:
    - atgyfnerthu rolau gwerthfawr unigolion
    - helpu unigolion i gofio pethau a chyfathrebu
    - helpu unigolion i gynllunio at y dyfodol gan gydnabod yr hyn sy'n bwysig iddynt
    - helpu i gynllunio a darparu gofal a chymorth unigol
    - personoli mannau byw a gweithgareddau
    - helpu i ddehongli ac ymateb i ymddygiadau y gellir eu hystyried yn heriol

- pwysigrwydd helpu unigolion i gyflawni'r pethau bychain, yn ogystal â'r canlyniadau mawr
- pwysigrwydd cyfrannu at y gymuned a pherthnasoedd cadarnhaol i lesiant
- sut y gall unigolion gyfrannu at eu cymunedau a chyfoethogi bywydau pobl eraill, yn ogystal â derbyn gofal a chymorth

# Uned 435 Meithrin dealltwriaeth o ddementia

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Bywyd llawn a gwerthfawr** i gynnwys:

- Dewis a rheolaeth dros fân bethau beunyddiol a materion arwyddocaol mewn bywyd
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- Cael a chymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o brofiadau a gweithgareddau ystyrlon
- Gofal corfforol ac iechyd meddwl
- Perthnasoedd rhywiol
- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd
- Cynhwysiant cymdeithasol
- Perthnasoedd a chyfeillgarwch
- Cysylltiadau cymunedol
- Mynediad at ofal iechyd sylfaenol ac arbenigol
- Cefnogi cysylltiadau ac arferion ffydd a diwylliannol
- Rheoli cyllid

**Diymadferthedd dysgedig** – pan na fydd pobl yn teimlo y gallant osgoi sefyllfa negyddol am fod profiad blaenorol wedi dangos iddynt nad oes ganddynt unrhyw reoaleth. Mae hyn yn arwain at gylch negyddol lle mae ganddyn nhw, ac eraill, ddisgwyliadau isel ohonynt a atgyfnerthir pan fo'r unigolyn yn cyflawni'r disgwyliadau isel hyn, gan greu dibyniaeth, hunan-barch isel a diffyg hunangred.

**Cyfarwyddebau cyfreithiol;** blaengyfarwyddebau, atwrneiaeth

**Cyflyrau corfforol ac iechyd meddwl:** deliriwm, iselder, seicosis, haint llwybr wrinol, diffyg hylif, blinder, anhwylder gorfodaeth obsesiynol

**Egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol:**

Egwyddor 1: Tybio galluedd – mae gan berson hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid tybio bod ganddo'r galluedd i wneud hynny oni phrofir fel arall. Golyga hyn na allwch dybio na all person wneud penderfyniad drosto'i hun dim ond am fod ganddo gyflwr meddygol neu anabledd penodol, e.e. dementia.

Egwyddor 2: Rhaid i bobl gael eu cefnogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain – rhaid i berson gael pob help ymarferol cyn i unrhyw un ei drin fel rhywun na all wneud ei benderfyniadau ei hun. Golyga hyn y dylech ymdrechu i annog a chefnogi pobl i wneud y penderfyniad drostyn nhw eu hunain. Os nodir nad oes galluedd meddyliol, mae'n dal i fod yn bwysig cynnwys y person cymaint â phosibl wrth wneud penderfyniadau.

Egwyddor 3: Penderfyniadau annoeth – mae gan bobl yr hawl i wneud penderfyniadau y gall eraill eu hystyried yn annoeth neu'n ecsentrig. Ni allwn drin person fel rhywun nad oes ganddo alluedd meddyliol am y rheswm hwn. Mae gan bawb eu gwerthoedd, eu credoau a'u dewisiadau eu hunain na fyddant o reidrwydd yr un peth â rhai pobl eraill.

Egwyddor 4: Budd pennaf – rhaid i unrhyw beth a wneir ar gyfer neu ar ran person heb alluedd meddyliol gael ei wneud er ei fudd pennaf – ac nid er mwyn diogelu'r asiantaeth na buddiannau eraill ar draul y person.

Egwyddor 5: Opsiwn llai cyfyngol – rhaid i rywun sy'n gwneud penderfyniad neu sy'n gweithredu ar ran person nad oes ganddo alluedd ystyried a yw'n bosibl gwneud penderfyniad neu weithredu mewn ffordd a fyddai'n amharu llai â hawliau a rhyddid i weithredu'r person, neu a oes angen gwneud penderfyniad neu weithredu o gwbl. Dylid pwyso a mesur unrhyw ymyriad yn ôl amgylchiadau penodol yr achos.

**Ymyriadau cyfyngol** - ataliaeth gorfforol, ataliaeth fecanyddol, defnyddio meddyginiaeth, ataliaeth seicogymdeithasol (sancsiynau), amser tawelu neu amser i ffwrdd, ymyriadau amgylcheddol

Mae **arferion cyfyngol** yn ystod eang o weithgareddau sy'n atal unigolion rhag gwneud pethau y maent am eu gwneud neu sy'n eu hannog i wneud pethau nad ydynt am eu gwneud. Gallan nhw fod yn amlwg iawn neu'r mymryn lleiaf. Dylid eu deall fel rhan o gontinwwm, o gyfyngu ar ddewis, i ymateb adweithiol i ddigwyddiad neu argyfwng neu os yw rhywun yn mynd i niweidio ei hun neu eraill yn ddifrifol.

**Niwed distaw:** Gall pobl â dementia brofi 'niwed distaw' (Clarke et al, 2011), pan fydd y rhai sy'n eu cefnogi yn ceisio osgoi risg ac yn canolbwyntio ar ddiogelwch corfforol, yn hytrach na chyflawni ansawdd bywyd ystyrlon.

Gallai **symptomau a chyflwyniad dementia** gynnwys y cof, arddel barn, iaith ac ymgyfeiriad

Mae **amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon** yn cyfeirio at y cydbwysedd o weithgareddau sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd da i unigolion, gan ymgorffori gweithgareddau galwedigaethol, domestig, personol, hamdden, addysgol a chymdeithasol.

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/gwaith-da-fframwaith-dysgu-a-datblygu-dementia-i-gymru
- https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/gweledigaeth-genedlaethol-cymru-ar-ddementia
- https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/dementia-mwy-na-dim-ond-collir-cof
- http://dementia-wellbeing.org/adi-conference/what-do-we-about-the-efficacy-of-a-social-movement-like-dementia-friends/

# Uned 436 Meithrin dealltwriaeth o anabledd dysgu ac awtistiaeth

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 54 |
| **Credyd:** | 18 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi gofalwyr sy'n darparu gwasanaeth Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau i unigolion ag anabledd dysgu/ awtistiaeth<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at unigolion awtistig a/neu unigolion ag anableddau dysgu |

## Deilliant dysgu:

1. Meithrin dealltwriaeth o ganfyddiadau a safbwyntiau ynghylch anabledd dysgu ac awtistiaeth

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Beth yw ystyr y termau 'anabledd dysgu' ac 'awtistiaeth'
1.2 **Cyffredinolrwydd anableddau dysgu ac awtistiaeth**
1.3 Mathau gwahanol o anableddau dysgu a'u hachosion posibl
1.4 Prif nodweddion awtistiaeth ac ystyr y 'triad o namau'
1.5 Pam ei bod hi'n bwysig i bob unigolyn sydd ag anabledd dysgu neu sydd ar y sbectrwm awtistig gael ei gydnabod am ei alluoedd, anghenion, cryfderau, a doniau unigol ei hun
1.6 Effeithiau (cadarnhaol a negyddol) cael eich labelu fel rhywun ag anabledd dysgu/awtistiaeth
1.7 Pam y gall awtistiaeth fod yn anabledd cudd weithiau, a sut y gall hyn effeithio ar unigolion
1.8 Modelau meddygol a chymdeithasol anabledd
1.9 Safbwyntiau cymdeithasol a meddygol o anableddau dysgu ac awtistiaeth, a sut mae'r rhain wedi datblygu a newid dros amser
1.10 **Effeithiau posibl** agweddau a gwerthoedd cymdeithas ar unigolion
1.11 Sut mae agweddau a gwasanaethau wedi newid dros amser o ganlyniad i bolisi cymdeithasol a deddfwriaeth
1.12 Sut y gall gofalwyr gyfrannu at newid agweddau unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth

1.13 Pam y gall dewisiadau bywyd unigolion ag anabledd dysgu/awtistiaeth fod yn fwy cyfyngedig na rhai'r boblogaeth gyffredinol, a sut mae darpariaeth gwasanaeth lleoli oedolion/cysylltu bywydau yn ceisio mynd i'r afael â hyn

1.14 Sut y gall rhywedd ac ethnigrwydd, ac amgylcheddau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol effeithio ar unigolion a'r cymorth a gânt

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.15 Cynorthwyo gofalwyr i:

- mynd ati i gynorthwyo unigolion gan ystyried:
    - nodweddion yr anabledd
    - unrhyw rwystrau maent yn eu hwynebu
    - eu natur unigol a'r hyn maent yn ei ffafrio
- hyrwyddo canfyddiadau cadarnhaol o unigolion ag anabledd dysgu/awtistiaeth

1.16 Herio rhagfarn, delweddau ystrydebol, gwahaniaethu ac agweddau negyddol tuag at unigolion ag anabledd dysgu/awtistiaeth

**Amrediad:**

**Cyffredinolrwydd anableddau dysgu ac awtistiaeth:** unigolion ag anabledd dysgu sy'n awtistig, unigolion awtistig sydd ag anabledd dysgu, unigolion awtistig nad oes ganddynt anabledd dysgu, unigolion ag anabledd dysgu nad ydynt yn awtistig

**Effeithiau posibl:** ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n llesteirio'r anawsterau a brofir gan yr unigolyn (allgáu, economaidd-gymdeithasol, addysg, cyflogaeth, annibyniaeth, llesiant emosiynol a chorfforol, dewisiadau bywyd)

---

Deilliant dysgu:

2. Sut i helpu gofalwyr i feithrin dealltwriaeth o ddulliau seiliedig ar hawliau, perthnasoedd cadarnhaol a chyfranogi yn y gymuned

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Helpu gofalwyr i ddeall:

- Sut mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn cefnogi dull seiliedig ar hawliau
- beth mae'r hawl i fyw bywyd llawn a gwerthfawr yn ei olygu i unigolion
- ystyr y term 'rôl werthfawr'.
- pwysigrwydd cael rôl werthfawr ac ymdeimlad o ddiben i lesiant unigolyn
- pwysigrwydd cyfrannu at y gymuned a pherthnasoedd cadarnhaol i lesiant
- sut y gall unigolion gyfrannu at eu cymunedau a chyfoethogi bywydau pobl eraill
- sut i helpu unigolion i ddeall y cysyniad o gyfeillgarwch
- ystyr 'cylch cymorth' a sut y gellir ei ddefnyddio i gefnogi llesiant unigolion
- sut i fynd i'r afael â'r rhwystrau posibl sy'n llesteirio:
    - cyfrannu at y gymuned
    - perthnasoedd cadarnhaol

- cysylltiadau rhwng cymryd risgiau cadarnhaol a chyfrifoldebau, llais a rheolaeth, a chynhwysiant cymdeithasol
- pwysigrwydd cymryd risgiau i unigolion mewn bywyd bob dydd
- pam y gall unigolion fod wedi'u hatal, neu eu hannog, rhag cymryd risgiau
- y canlyniadau seicolegol i unigolion os cânt eu gadael am gyfnodau hir heb unrhyw ysgogiad nac ymgysylltiad
- sut i helpu unigolion awtistig i gydbwyso'r angen am arfer â chyfleoedd i brofi gwahanol weithgareddau a meithrin cydberthnasau
- pwysigrwydd defnyddio dull seiliedig ar sgiliau i feithrin sgiliau, hyder, hunan-barch a chydberthnasau
- sut a phryd y gall arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol gael eu defnyddio gydag unigolion a phwysigrwydd defnyddio strategaethau rhagweithiol i osgoi'r rhain lle bynnag y bo modd
- mathau gwahanol o eiriolaeth a'r ffordd y gellir eu defnyddio i gefnogi hawliau unigolion

---

Deilliant dysgu:

3. Cefnogi proses gyfathrebu effeithiol

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n :

3.1 Helpu gofalwyr i ddeall:

- yr amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a ffyrdd o gynorthwyo unigolion
- pwysigrwydd rhoi'r lefel gywir o wybodaeth i unigolion
- ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chymorth i feithrin sgiliau cyfathrebu
- pwysigrwydd defnyddio ac addasu iaith a dulliau cyfathrebu, sy'n briodol o ran oedran a gallu
- sut y gall profiadau blaenorol, cyflyrau ychwanegol ac iaith gyntaf ddylanwadu ar barodrwydd a gallu unigolyn i gyfathrebu
- sut y gall ymddygiad gael ei ddefnyddio fel ffurf ar gyfathrebu

3.2 Cynorthwyo gofalwyr i:

- ddefnyddio ac addasu amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a ffyrdd o gynorthwyo unigolion

---

Deilliant dysgu:

4. Helpu gofalwyr i feithrin dealltwriaeth o rywioldeb ac iechyd rhywiol

Meini prawf asesu:

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.1 Helpu gofalwyr i ddeall:

  - pwysigrwydd rhywioldeb, hunaniaeth rywiol ac iechyd rhywiol i unigolion
  - ffactorau a all effeithio ar ddatblygiad rhywiol unigolion a'u gallu i fynegi eu rhywioldeb
  - sut y gellir cynorthwyo unigolion i:

---

- ➢ ddeall a mynegi eu hunaniaeth rywiol
- ➢ deall pwysigrwydd perthnasoedd ystyrlon o ran eu rhywioldeb
- ➢ aros yn ddiogel yn rhywiol

---

Deilliant dysgu:

5. Helpu gofalwyr i feithrin dealltwriaeth o gyflyrau iechyd a phwysigrwydd archwiliadau iechyd

Meini prawf asesu:

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.1 Helpu gofalwyr i ddeall:

- yr **amodau iechyd** sydd fel arfer yn gysylltiedig ag anabledd dysgu
- hawliau unigolion i gael mynediad cyfartal at ofal iechyd a gofal diwedd oes
- yr heriau sy'n wynebu unigolion wrth gael gofal diwedd oes priodol
- pwysigrwydd hybu iechyd ac ymyrraeth gynnar i leihau'r risg o salwch
- beth y dylid ei gynnwys mewn archwiliad iechyd blynyddol, a pham mae'r rhain yn bwysig
- cyfrifoldebau am drefnu a chynnal archwiliadau iechyd blynyddol
- sut y gellir helpu unigolion i ddeall pwysigrwydd archwiliad iechyd blynyddol
- beth sydd angen ei ystyried pan fydd angen i unigolion gael gofal iechyd neu driniaeth feddygol, gan gynnwys:
  - ➢ sut y cânt gymorth
  - ➢ eu gallu i gydsynio
  - ➢ sut i weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill
  - ➢ dyletswydd gwasanaethau iechyd cyffredinol i wneud addasiadau rhesymol i unigolion
  - ➢ sut i weithredu canlyniadau

**Amrediad**

**Cyflyrau iechyd:** Epilepsi, nam ar y synhwyrau, salwch meddwl, dementia cynnar ac iechyd corfforol cyffredinol

# Uned 436 Meithrin dealltwriaeth o anabledd dysgu ac awtistiaeth

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Archwiliad iechyd blynyddol:** byddai hyn yn cynnwys archwiliadau iechyd sydd wedi'u cynllunio ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu a gynhelir gan feddygon teulu neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill. Byddai'r rhain yn canolbwyntio ar broblemau iechyd hysbys i unigolion ag anableddau dysgu e.e. cwyr clust cywasgedig, archwiliadau golwg/clyw, ac maent wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd

**Heriau a all godi wrth helpu unigolion i gyfrannu at y gymuned:**

- y gefnogaeth sydd ar gael
- cost
- mynediad
- gweithgareddau ar wahân
- agweddau, credoau, syniadau parod ac ymddygiad eraill
- y gallu i gyfathrebu
- ymddangosiad personol
- gallu
- diffyg dealltwriaeth o'r cysyniad o gyfeillgarwch

**Ffactorau a all effeithio** ar ddatblygiad rhywiol unigolion a'u gallu i fynegi eu rhywioldeb: dylanwadau diwylliannol-gymdeithasol, agweddau a chredoau, tybiaethau ystrydebol, gwasanaethau/gweithwyr proffesiynol sy'n osgoi risgiau, materion diogelu, galluedd meddyliol, addysg rhyw, geneteg

Gallai **bywyd llawn a gwerthfawr** gynnwys:

- Dewis a rheolaeth dros fân bethau beunyddiol a materion arwyddocaol mewn bywyd
- Addysg a hyfforddiant
- Cyflogaeth
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- Cymryd rhan mewn **amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon**
- Gofal corfforol ac iechyd meddwl
- Mynediad at ofal iechyd sylfaenol ac arbenigol
- Bod yn rhiant
- Perthnasoedd rhywiol
- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd
- Cefnogi cysylltiadau ac arferion ffydd a diwylliannol

- Tai a llety
- Cynhwysiant cymdeithasol a chysylltiadau cymunedol
- Perthnasoedd a chyfeillgarwch

**Canlyniadau seicolegol** h.y.:

- Llesgedd a diflastod
- Iselder a blinder
- Drysu
- Penbleth
- Colli hyder a sgiliau

Gallai'r **amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu** gynnwys: ffotograffau, lluniau, arwyddion, ystumiau, gwrthrychau cyfeirio, PECS, Makaton, BSL, cardiau fflach, geiriau allweddol ac ystyron, cynllunwyr gweledol

**Ymyriadau cyfyngol** - ataliaeth gorfforol, ataliaeth fecanyddol, defnyddio meddyginiaeth, ataliaeth seicogymdeithasol (sancsiynau), amser tawelu neu amser i ffwrdd, ymyriadau amgylcheddol

Mae **arferion cyfyngol** yn ystod eang o weithgareddau sy'n atal unigolion rhag gwneud pethau y maent am eu gwneud neu sy'n eu hannog i wneud pethau nad ydynt am eu gwneud. Gallan nhw fod yn amlwg iawn neu'r mymryn lleiaf. Dylid eu deall fel rhan o gontinwwm, o gyfyngu ar ddewis, i ymateb adweithiol i ddigwyddiad neu argyfwng neu os yw rhywun yn mynd i niweidio ei hun neu eraill yn ddifrifol.

**Sensitifrwydd synhwyraidd:** golwg, synau, arogl, blas, cyffyrddiad, ymwybyddiaeth o'r corff, synesthesia

**Triad o namau:** anawsterau parhaus gyda chyfathrebu cymdeithasol a rhyngweithio cymdeithasol, patrymau ymddwyn cyfyngol ac ailadroddus, gweithgareddau neu ddiddordebau sy'n cyfyngu ar fywyd bob dydd, neu'n ei lesteirio, a sensitifrwydd synhwyraidd

**Mathau o eiriolaeth** i gynnwys:

- Hunaneiriolaeth
- Eiriolaeth anffurfiol
- Cydeiriolaeth
- Eiriolaeth cymheiriaid
- Eiriolaeth dinasyddion
- Eiriolaeth gwirfoddolwyr annibynnol
- Eiriolaeth ffurfiol
- Eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

**Rolau gwerthfawr** e.e.

- Gofalwr
- Gweithiwr
- Deiliad y cartref
- Rhiant
- Myfyriwr
- Gwirfoddol

**Pam y gall awtistiaeth fod yn anabledd cudd weithiau:** pam nad oes gan rai pobl ar y sbectrwm awtistig unrhyw nodweddion gweledol amlwg

## ***Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig***

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Cydraddoldeb (2010;
- Deddf Hawliau Dynol 1998 a Chonfensiynau a Phrotocolau cysylltiedig fel, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1992, Datganiad hawliau pobl hŷn yng Nghymru (2014);
- Mesurau Diogelu Rhyddid

# Uned 437 Meithrin dealltwriaeth o salwch meddwl

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 55 |
| **Credyd:** | 18 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi unigolion sy'n darparu lleoliadau/trefniadau cysylltu bywydau i unigolion â salwch meddwl<br><br>Drwy'r uned hon, bydd unrhyw gyfeiriad at 'unigolyn' yn golygu unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl.<br>Mae'r term 'gofalwr' yn cyfeirio at ofalwyr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau |

## Deilliant dysgu:

1. Meithrin dealltwriaeth o ganfyddiadau a safbwyntiau ynghylch salwch meddwl

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Y mathau o broblemau iechyd meddwl y gall unigolion eu profi

1.2 Cyffredinolrwydd a demograffeg salwch meddwl yn y boblogaeth

1.3 Pwysigrwydd edrych ar salwch meddwl o safbwynt cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac nid ei symptomau yn unig

1.4 **Effeithiau posibl** diagnosis salwch meddwl i unigolion

1.5 Y ffactorau a all arwain at gyfnod o salwch meddwl

1.6 Y stigma sy'n gysylltiedig â salwch meddwl

1.7 Effeithiau posibl agweddau a gwerthoedd cymdeithas ar unigolion

1.8 Y **rhwystrau cymdeithasol** y gall unigolion eu profi

1.9 Sut y gall gofalwyr helpu i newid agweddau tuag at unigolion â salwch meddwl

1.10 Pam y gall dewisiadau bywyd unigolion â salwch meddwl fod yn fwy cyfyngedig na rhai'r boblogaeth gyffredinol, a sut mae darpariaeth gwasanaeth lleoli oedolion/cysylltu bywydau yn ceisio mynd i'r afael â hyn

1.11 Sut y gall rhywedd ac ethnigrwydd, ac amgylcheddau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol effeithio ar unigolion a'r cymorth a gânt

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.12 Cynorthwyo gofalwyr i:

- mynd ati i gynorthwyo unigolion gan ystyried:

    - y math o broblemau iechyd meddwl mae'r unigolyn yn ei brofi neu wedi ei brofi
    - unrhyw rwystrau maent yn eu hwynebu
    - eu natur unigol a'r hyn maent yn ei ffafrio
  - hyrwyddo canfyddiadau cadarnhaol o unigolion â salwch meddwl, ac agweddau cadarnhaol tuag atynt

1.13 Herio rhagfarn, tybiaethau ystrydebol, gwahaniaethu ac agweddau negyddol tuag at unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl

**Amrediad:**

**Effeithiau posibl:** cadarnhaol a negyddol

**Effeithiau posibl agweddau a gwerthoedd cymdeithas:** ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n llesteirio'r anawsterau a brofir gan yr unigolyn (allgáu, economaidd-gymdeithasol, addysg, cyflogaeth, annibyniaeth, llesiant emosiynol a chorfforol, dewisiadau bywyd)

**Rhwystrau cymdeithasol:** agweddau a thybiaethau ystrydebol, iaith negyddol/sarhaus, rhwystrau sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

2. Meithrin dealltwriaeth o ddulliau seiliedig ar hawliau, perthnasoedd cadarnhaol a chyfrannu at y gymuned

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Helpu gofalwyr i ddeall:

- deddfwriaeth allweddol, polisïau, canllawiau a safonau cenedlaethol sy'n sail i ddarparu gofal a chymorth ym maes iechyd meddwl
- Sut mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn cefnogi dull seiliedig ar hawliau
- sut i gymryd camau seiliedig ar hawliau i gynorthwyo unigolion
- rôl eiriolaeth wrth gefnogi hawliau unigolion
- beth mae'r hawl i fyw bywyd llawn a gwerthfawr yn ei olygu i unigolion, a sut y gellir cefnogi hyn
- ystyr y term ‘rôl werthfawr’.
- effaith gadarnhaol rôl werthfawr ar lesiant unigolyn, a sut y caiff ei weld a'i drin gan eraill mewn cymdeithas
- pwysigrwydd cyfrannu at y gymuned a chydberthnasau i lesiant
- sut y gall unigolyn gyfrannu at ei gymuned a chyfoethogi bywydau pobl eraill
- sut i fynd i'r afael â'r rhwystrau posibl sy'n llesteirio:
    - cyfrannu at y gymuned
    - perthnasoedd cadarnhaol
- y cysylltiadau rhwng cymryd risgiau cadarnhaol a chyfrifoldebau, llais a rheolaeth, a chynhwysiant cymdeithasol

- pwysigrwydd cymryd risgiau cadarnhaol i unigolion mewn bywyd bob dydd
- pam ei bod yn bosibl bod unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl wedi'u hatal, neu eu hannog, rhag cymryd risgiau
- pwysigrwydd defnyddio dull gweithredu seiliedig ar sgiliau i feithrin sgiliau, hyder, hunan-barch a chydberthnasau

---

Deilliant dysgu:

3. Meithrin dealltwriaeth o driniaeth a chymorth er mwyn helpu unigolion i wella

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Y Model Gwella

3.2 Y driniaeth sydd ar gael i helpu unigolion i wella

3.3 Manteision presgripsiynu cymdeithasol i unigolion

3.4 Gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau sydd ar gael i ddarparu triniaeth a chymorth

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.5 Cynorthwyo gofalwyr i:

- gosod y Model Gwella wrth wraidd eu gwaith
- helpu unigolion i fod yn wydn
- helpu unigolion i gael a defnyddio triniaeth gytûn sy'n helpu i:
    - ➢ ymdopi â symptomau eu hiechyd meddwl
    - ➢ cymryd camau i wella

---

Deilliant dysgu:

4. Problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau a welir ar yr un pryd

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.1 Helpu gofalwyr i ddeall:

- beth yw ystyr y term 'iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau a welir ar yr un pryd'
- problemau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau
- problemau a wynebir gan unigolion â salwch meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau
- sut i helpu unigolion sy'n wynebu problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ar yr un pryd

---

Deilliant dysgu:

5. Helpu gofalwyr i ddeall sut i reoli argyfyngau

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Sut i helpu gofalwyr i:

- archwilio mathau o **argyfyngau** a all ddigwydd a'r camau y dylid eu cymryd
- deall sut a phryd y gall ymyriadau cyfyngol gael eu defnyddio
- deall pwysigrwydd atal ac ymyrryd yn gynnar wrth atal argyfyngau
- gwybod sut i ymateb mewn argyfwng
- gwybod sut i dawelu sefyllfa os bydd rhywun yn cynhyrchu neu'n mynd yn ymosodol
- gwybod sut i gefnogi unigolion sy'n ystyried hunanladdiad a/neu sy'n niweidio eu hunain

### Amrediad:

**Argyfyngau:** ymddygiad bygythiol, ymosodol, amhriodol neu dreisgar, gorddos, hunan-niwed sylweddol, ystyried hunanladdiad, seicosis

# Uned 437 Meithrin dealltwriaeth o salwch meddwl

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Y ffactorau a all arwain at gyfnod o salwch meddwl;**

Mae tri phrif gategori - biolegol, seicolegol ac amgylcheddol/cymdeithasol a gallent gynnwys:

- cam-drin plant, trawma, neu esgeulustod mewn plentyndod
- trais domestig, bwlio neu fath arall o gamdriniaeth a brofir fel oedolyn
- ynyswch cymdeithasol neu unigrwydd
- profi gwahaniaethu a stigma
- anfantais gymdeithasol, tlodi neu ddyled
- profedigaeth
- straen difrifol neu hirdymor
- cyflwr iechyd meddwl hirdymor
- diweithdra neu golli swydd
- digartrefedd neu dai gwael
- gofalu am rywun yn yr hirdymor
- camddefnyddio cyffuriau ac alcohol
- trawma sylweddol fel oedolyn, fel ymladd milwrol, bod mewn digwyddiad difrifol, neu ddioddef trosedd dreisgar
- achosion corfforol – er enghraifft, gall anaf i'r pen neu gyflwr niwrolegol fel epilepsi gael effaith ar ymddygiad a hwyliau. (Mae'n bwysig cadarnhau nad achosion corfforol posibl sy'n gyfrifol cyn ceisio triniaeth bellach).
- Beichiogrwydd a'r cyfnod ar ôl rhoi genedigaeth
- hunaniaeth o ran rhywedd

Er y gall ffactorau ffordd o fyw gan gynnwys gwaith, diet, cyffuriau a diffyg cwsg oll effeithio ar iechyd meddwl, os bydd unigolion yn profi problem iechyd meddwl mae ffactorau eraill hefyd fel arfer.

**Presgripsiynu cymdeithasol:** Gall meddygon, meddygon teulu, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill atgyfeirio pobl at amrywiaeth o wasanaethau lleol, anghlinigol e.e. dosbarthiadau ymarfer corff neu ddysgu mewn grŵp. Y nod yw diwallu anghenion pobl mewn ffordd gyfannol; gan gydnabod amrywiaeth o ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd

**Y Model Gwella:**

Yn aml, cyfeirir at wella fel proses, rhagolwg, gweledigaeth, fframwaith cysyniadol neu egwyddor arweiniol. Y broses wella:

- mae'n edrych ar salwch meddwl o safbwynt cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, nid ei symptomau yn unig

- cred ei bod yn bosibl gwella o salwch meddwl difrifol
- taith nid cyrchfan ydyw
- nid yw o reidrwydd yn golygu dychwelyd at y man roeddech gynt
- mae'n digwydd fesul tipyn ac, fel mewn bywyd, ceir adegau da a drwg
- mae'n gofyn am optimistiaeth ac ymrwymiad gan bawb dan sylw
- mae disgwyliadau ac agweddau pobl yn effeithio arni'n sylweddol
- mae'n gofyn am system drefnus iawn o gymorth gan deulu, ffrindiau neu weithwyr proffesiynol
- mae'n gofyn i wasanaethau groesawu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio.

Nod y model gwella yw helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl i edrych y tu hwnt i oroesi a bodoli yn unig. Mae'n eu hannog i symud ymlaen, gosod nodau newydd a gwneud pethau a meithrin cydberthnasau sy'n rhoi ystyr i'w bywydau.

Mae'r model gwella yn rhoi pwyslais ar gymryd rheolaeth o'ch bywyd, er efallai na ellir cael rheolaeth lawn o'ch symptomau. Nid oes a wnelo gwella â 'gwaredu' problemau. Mae a wnelo â gweld y tu hwnt i broblemau iechyd meddwl rhywun, gan gydnabod a meithrin ei alluoedd, diddordebau a breuddwydion.

Yn aml, mae salwch meddwl ac agweddau cymdeithas tuag at salwch meddwl yn gosod cyfyngiadau ar bobl sy'n profi salwch meddwl.  Gall gweithwyr iechyd proffesiynol, teulu a ffrindiau fod yn rhy warchodol, neu'n besimistaidd ynghylch yr hyn y gall rhywun â phroblem iechyd meddwl ei gyflawni. Mae'r model gwella yn gofyn i ni edrych y tu hwnt i'r terfynau hynny er mwyn helpu pobl i gyflawni eu nodau a'u dyheadau eu hunain.

Gall y broses wella fod yn un o hunanddarganfod a datblygiad personol. Gall profi salwch meddwl gynnig cyfleoedd i newid, myfyrio a darganfod gwerthoedd, sgiliau a diddordebau newydd.

Noda gwaith ymchwil fod ffactorau pwysig ar hyd y daith wella yn cynnwys:

- cydberthnasau da
- sicrwydd ariannol
- gwaith boddhaol
- twf personol
- yr amgylchedd/ llety byw cywir
- meithrin eich safbwyntiau diwylliannol neu ysbrydol eich hun
- datblygu gwydnwch i brofiadau andwyol neu straen posibl yn y dyfodol.

Ymhlith y ffactorau eraill a nodwyd gan bobl fel rhai oedd yn eu helpu i wella roedd:

- cael rhywrai eraill yn credu ynoch
- bod rhywrai eraill yn gwrando arnoch ac yn eich deall
- cael esboniadau i broblemau neu brofiadau
- cael y cyfle i ildio cyfrifoldeb dros dro mewn argyfwng.
- cael y driniaeth a'r cymorth cywir

Hefyd, mae'n bwysig bod unrhyw un sy'n cynorthwyo rhywun wrth iddynt wella yn ei annog i feithrin ei sgiliau, ac yn ei helpu i gyflawni ei nodau.

Cysylltiadau rhwng gwella a chynhwysiant cymdeithasol:
Mae cysylltiad cryf rhwng y broses wella a chynhwysiant cymdeithasol. Rôl allweddol i wasanaethau yw helpu pobl i adfer eu lle yn eu cymunedau, a chymryd rhan mewn gweithgareddau prif ffrwd ac achub ar gyfleoedd fel pawb arall. Mae swm cynyddol o dystiolaeth sy'n dangos y gall achub ar gyfleoedd cymdeithasol, addysgol, hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth helpu unigolion i wella.

Triniaeth: gallent gynnwys: gweithgareddau therapiwtig (ymlacio, meddylgarwch, bod allan yn yr awyr agored), gofal corfforol (cwsg, osgoi alcohol a chyffuriau adloniant, cymryd gofal o'ch ymddangosiad a'ch hylendid personol, bwyta'n iach, gweithgarwch corfforol), therapïau siarad (Therapi Ymddygiad Gwybyddol), Meddyginiaeth (gwrthiselyddion, tabledi cysgu a mân dawelynnau, sefydlogwyr hwyliau), therapïau celfyddydol a chreadigol, therapïau ategol ac amgen, gwaith grŵp, cymorth gan gymheiriaid.

Bydd y rheini sy'n cael gofal a chymorth o dan ran 2 o'r Mesur Iechyd Meddwl yn cael yr hawl i Gynllun Gofal a Thriniaeth.

**Mathau o eiriolaeth:** (copy from other units, include IMHA and IMCA)

Gallai'r **mathau o broblemau iechyd meddwl** gynnwys:

- Dicter
- Gorbryder a phyliau o banig
- Anhwylder deubegynol
- Anhwylder dysmorffia'r corff
- Anhwylder personoliaeth ar y ffin
- Iselder
- Anhwylderau datgysylltiol
- Cyffuriau – alcohol a chyffuriau adloniant
- Problemau bwyta
- Clywed lleisiau
- Celcio
- Hypomania a mania
- Unigrwydd
- Anhwylder gorfodaeth obsesiynol
- Pyliau o banig
- Paranoia
- Anhwylderau personoliaeth
- Ffobiâu
- Iselder ôl-enedigol ac iechyd meddwl amenedigol
- Anhwylder straen wedi trawma
- Anhwylder dysfforig cyn misglwyf

- Seicosis
- Anhwylder sgitsoaffeithiol
- Sgitsoffrenia
- Anhwylder affeithiol tymhorol
- Hunan-barch
- Hunan-niweidio
- Problemau cysgu
- Straen
- Teimladau hunanladdiadol
- Dyscinesia cam-symud araf

Mae **amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon** yn cyfeirio at y cydbwysedd o weithgareddau sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd da i unigolion, gan ymgorffori gweithgareddau galwedigaethol, domestig, personol, hamdden, addysgol a chymdeithasol.

## *SGC cysylltiedig*

- SFHMH14 Nodi anghenion iechyd meddwl posibl a materion cysylltiedig
- SFHMH18 Nodi anghenion iechyd corfforol unigolion ag anghenion iechyd meddwl

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- **https://www.mind.org.uk/information-support/**
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 (diwygiwyd 2007) **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1983/20/contents**
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 **http://www.mentalhealthwales.net/mental-health-measure/**
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/9/contents**
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/47/contents**
- Deddf Hawliau Dynol 1998 **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents**
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 **http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf**
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 **http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy**
- Iechyd Meddwl yng Nghymru Ffeithiau Sylfaenol (2016) https://www.mentalhealth.org.uk/sites/default/files/FF16%20Wales%20WELSH.pdf
- Adran 117 Ôl-ofal yng Nghymru a Lloegr **https://www.mind.org.uk/media/5544543/leaving-hospital-2-pdf.pdf**
- Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru **http://gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/policy/strategy/?lang=cy**
- Siarad â fi 2 – strategaeth atal hunanladdiad yng Nghymru **http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/talk2/?lang=cy**

- **https://www.mentalhealth.org.uk/sites/default/files/FF16%20Wales%20WELSH.pdf**

# Atodiad 1 Cysylltiad â chymwysterau eraill

## Cysylltiadau â chymwysterau eraill

Mae cysylltiadau rhwng y cymhwyster hwn a'r cymwysterau canlynol:

- Lefel 1/2 Cyflwyniad i Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 5 Arwain a Rheoli mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol